

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 2il 2015 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gethin Morris, Gary Thomas, Alwyn Jones, Maldwyn Jones, Gwenda Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Dewi Pritchard, Gwenda Morris a Tina Davies.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a chafwyd yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ethol is-gadeirydd.

Etholwyd Gary Thomas yn is-gadeirydd.

Grant ar gyfer Cofeb Rhyfel.

Yn dilyn ymholiadau roedd y clerc wedi cael cadarnhad nad oedd Cyngor Gwynedd yn cymryd cyfrifoldeb o'r gofeb. Cytunodd y clerc a Maldwyn Jones wneud ymholiadau pellach gyda thrigolion lleol Llandderfel.

Wal mynwent Llanfor

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod Cwmni James Cyf, Trawsfynydd wedi cytuno i ymweld â'r fynwent i baratoi amcan bris o ail godi'r wal ar gyfer y polisi yswiriant.

Mynediad Gwybodaeth.

Adroddodd y clerc bod ychydig o ddryswch ynglŷn â'r wybodaeth yr oedd y Cyngor yn fod i arddangos ar y wefan. Roedd y clerc wedi ail gysylltu ag Un Llais Cymru ac yn aros am ei ymateb.

Cyfarfod Her Gwynedd.

Atgoffwyd y cynghorwyr am y cyfarfod yn y Bala ar y 10/6/15 i drafod y sefyllfa ariannol ac adnabod cyfleoedd ble gall cymunedau ystyried redeg gwasanaethau yn wahanol. Cytunodd Eilir Rowlands fynychu'r cyfarfod gyda'r clerc.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

b) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Mai.

ii) Iechyd a Gofal yng Ngwynedd - Adran Oedolion Iechyd a Llesiant - gwybodaeth am y cynllun i edrych ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd a'r plethiad rhwng y gwasanaethau,

iii) Cronfa Gymunedol Braich Ddu – derbyniwyd gwybodaeth am y trefniant newydd i geisio am arian o'r gronfa.

c) Amrywiol

i) Grŵp Cynefin – Derbyniwyd gwybodaeth am eu 'Grant Datblygu Cymunedol'.

ii) Heddlu Gogledd Cymru – gwybodaeth am eu hymgyrch diweddaraf i recriwtio gwirfoddolwyr.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-

C15/0335/04/LL – Dymchwel adeilad amaethyddol presennol a chodi adeilad amaethyddol yn ei le. Bryn Awelon, Llanfor.

Materion Ariannol.

Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon copi o'r ffurflen i'r archwilwyr mewnol, UHY Hacker Young.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Rhent cae chwarae Frongoch i Gyngor Gwynedd

ii) TGTHE (TWE) – 2 siec ar gyfer y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol.

Rheolydd Pensiynau.

Derbyniwyd llythyr yn egluro dyletswyddau cyfreithiol newydd y Cyngor yn ymwneud a chofrestru staff ar gyfer cynllun pensiwn. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'u dyletswyddau.

Ffioedd y Fynwent.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar ffioedd y fynwent ar gyfer 2015-16. Gofynnwyd i'r clerc i basio'r wybodaeth ymlaen i'r ymgwymerwyr lleol.

Unrhyw Fater Arall

Archwilio'r cerrig beddi.

Cytunwyd bod hi'n amser i archwilio'r cerrig beddi yn y mynwentydd. Cytunwyd i gychwyn y gwaith nos Fercher y 17eg ac i osod rhybudd yn Y Cyfnod i hysybsu'r cyhoedd o fwriad y Cyngor.